

# Dyma dy fam!

Tybed ai dyma un o storïau mwyaf tyner a theimladwyr Testament Newydd? Yn eironig, fodd bynnag, mae'n digwydd yn ystod erchylltra'r croeshoeliad. Pan welodd Iesu Mair ei fam a'r disgybl yr oedd yn ei garu, sef Ioan, yn sefyll wrth ei hymyl, meddai wrth Mair, 'Wraig, dyma dy fab di.' Ac wrth Ioan, 'Dyma dy fam di.' (Ioan 19:25-27.)

Gwyddom fod rhai traddodiadau Cristnogol yn rhoi lle blaenllaw iawn i Mair. Beth bynnag y bo'n teimladau am hynny, ni allwn wadu fod lle pwysig iddi yn hanes Iesu. Fel merch ifanc cafodd ei synnu gan ymweliad yr angel; cariodd gywilydd yn ei chalon wrth iddi gario ei mab yn ei chroth gan iddi feichiogi y tu allan i briodas; a dioddefodd y boen eithaf o orfod gwylio'r mab hwnnw'n marw ar y groes flynyddoedd yn ddiweddarach. Trywanwyd ei henaid, yn union fel y proffwydodd Simeon wrthi (Luc 2:35).

Fel y gwelwn yn stori Mair, mae mamolaeth yn gallu bod yn boenus iawn. Heddiw, fodd bynnag, gall poen mamolaeth fod yn llawer gwaeth i'r tlotaf yn ein byd. Er bod iechyd mamol wedi gwella'n sylweddol i gynifer yn y byd sydd wedi datblygu, nid dyna'r stori yn y gwledydd hynny sydd wrthi'n datblygu. Dyma pam y gwnaethpwyd iechyd mamol yn un o ganlyniadau allweddol Nodau Datblygu'r Mileniwm a osodwyd yn y flwyddyn 2000.

Y nod oedd gofalu nad oedd mwy na 150 o famau yn marw ym mhob 100,000 genedigaeth byw. Araf fu'r cynnydd; yn ôl Banc y Byd dyma'r nod sydd wedi gweld y leiaf o ddatblygiad. Serch hynny, bu cynnydd - rhwng 1990 a 2013 gostyngwyd nifer y marwolaethau o 45%.

Mae Ghana ei hun wedi gweld cynnydd dramatig: o 760 marwolaeth i lawr i 360 rhwng yr un blynyddoedd; newydd calonogol iawn, gan fod pob ystadegyn yn cuddio stori bersonol o boen a thrallod wrth i deulu golli mam. Ond cyn inni or-ganmol ein hunain, cofiwn mai wyth yw'r nifer sy'n marw yng Nghymru!

Gadewch inni ddychwelyd at waelod y groes. 'Wraig, dyma dy fab di.' Ac i Ioan, 'Dyma dy fam.' Be allwn ni dynnu o'r stori fyddai'n ein hysbrydoli i roi ein hymdrech gorau posibl i'r apêl y flwyddyn hon?

## **Yn gyntaf, nodwn fod Iesu'n anrhydeddu ei fam yn yr hanesyn hwn.**

Yn ôl ei Efengyl, mae rhoi anrhydedd i'w fam yn rhywbeth y mae Ioan wedi ei weld ddwywaith ym mywyd Iesu. Yn wir, yn holl naratif ei Efengyl, dim ond dau gyfeiriad sylweddol sydd yno i Mair. Yn rhyfedd, nid yw'n cael ei henwi o gwbl gan Ioan – cyfeirir yn unig ati fel 'mam Iesu'.

O'r briodas yng Nghana y daw'r cyfeirid cyntaf. Mae'r stori yn gyfarwydd iawn inni ac mae'r symbolaeth sydd ynddi yn hynod bwysig. Digon i ni heddiw, fodd bynnag, sylwi, er nad oedd 'ei awr wedi dod' (Ioan 2:4) bod Iesu'n anrhydeddu ei fam trwy droi'r dŵr yn win. Yr ail gyfeiriad yw'r hanes sydd dan ein hystyriaeth heddiw. Wrth waelod y groes, mewn poen corfforol eithafol, mae Iesu'n anrhydeddu ei fam ac yn sicrhau fod ganddi rywun i ofalu amdani.

Un o'r syniadau diwinyddol y mae llenyddiaeth Ioan yn ei gyflwyno inni yn y Testament Newydd ydi natur ddeuol person Iesu o Nasareth – y syniad ei fod yn Dduw ac yn ddyn. Adlewyrcha hyn ddadl oedd yn bodoli ar gyrion yr Eglwys Fore – dadl yr oedd rhai'n mynnu y gallai fygwth neges ganolog yr Efengyl ei hun: a oedd Iesu yn ddyn go iawn? Yn ôl athroniaeth Roegaid roedd y cnawd a'r cread yn amhur ac yn ansanctaid, ac oherwydd hyn ni fyddai Duw wedi gwisgo cnawd. Yn ôl y syniad hwn felly, dim ond ymddangos yn ddynol a wnaeth Iesu. Ond roedd Ioan yn benderfynol nad dyma'r gwir. Daeth Iesu yn ddyn; trigodd yn ein plith; ef oedd y Gair a ddaeth yn gnawd.

Wrth ddod yn ddyn, mae Duw yn anrhydeddu ein dyndod ni. Rydym yn rhan o greadigaeth dda Duw – er cymaint effaith y cwmp arnom. Yn y digwyddiad hwn wrth waelod y groes, fodd bynnag, mae Ioan yn portreadu Iesu fel un sy'n mynd gam ymhellach yn yr anrhydeddu hwn – mae'n anrhydeddu'r ferch, ac yn benodol, yn anrhydeddu'r fam.

Roedd bywyd yn rhad iawn yn rhanbarth Môr y Canoldir yn y ganrif gyntaf. Roedd bywyd y dyn cyffredin – a bywyd y ddynes

gyffredin yn arbennig - yn gwbl hepgorol. Cymdeithas hierarchaidd ydoedd ac roedd y ferch yn isel iawn ar waelod yr ysgol. Heddiw, mewn sawl rhan o'n byd, efallai y mentrwn ddweud nad oes fawr wedi newid. Mae anghydraddoldeb yn graith hyll ar ein byd, ac anghydraddoldeb rhyw yn benodol. Pan ystyriwn iechyd mamol, nid dim ond diffyg buddsoddiad mewn iechyd sydd angen ei oresgyn, ond yr agwedd sy'n mynnu y gellid trin y ferch fel person eilradd. Dyma pam bod ymladd yn erbyn anghydraddoldeb rhyw mor bwysig i waith Cymorth Cristnogol. Mae codi'r ferch yn golygu codi'r tlawd. Ac mae'r gwaith yn cychwyn trwy roi iddynt - a phob person byw - anrhydedd fel rhan o greadigaeth dda Duw.

### **Yn ail, mae i'r anrhydeddu hwn ganlyniadau ymarferol.**

Mae gweld ein gilydd fel cydradd – boed hynny fel rhyw, neu grefydd, neu hil – yn allweddol. Ond os nad oes canlyniadau ymarferol yn dilyn hynny does fawr o bwrpas iddo.

Y canlyniad i Mair yw ei bod yn cael ei derbyn i gartref loan. Mae'n cael lle yn ei deulu. Roedd y teulu yn rhan allweddol o fywyd y gymuned yn y cyfnod hwn. Mewn adeg nad oedd y wladwriaeth yn cynnig unrhyw gymorth i'r rhai oedd yn ymdrechu mewn bywyd, dim ond oddi fewn i'r teulu y gellid bod yn sicr o gael diogelwch a chysgod. Hebdo gallech ganfod eich hun mewn trafferthion mawr – yn begera ar y strydoedd, a'ch bywyd yn un byr iawn.

Trwy gynnig lle iddi efo'i deulu, felly, mae loan yn cynnig cymorth ymarferol i Mair. Nid cymorth dros dro yw hwn, fodd bynnag. Mae'r canlyniadau yn rhai hir dymor.

Yn y ddadl ynghylch sut orau i ddileu tlodi o'n byd, clywn lawer am yr angen am newid strwythurol - mewn llywodraeth, mewn economi, ac mewn anghyfartaledd rhyw. Nid yw'n ddigon cynnig cymorth tymor byr yn ôl yr angen yn unig, er mor bwysig ydi gwneud hynny ar adegau. Os ydym am wneud cynnydd go iawn, mae angen newid strwythurol sylweddol iawn.

Mae Mair yn derbyn ateb tymor hir i'w sefyllfa fel gweddw. Mae'n derbyn cymorth mab; caiff le yn ei gartref; daw yn aelod o'i deulu. Iddi hi golyga hyn newid strwythurol yn ei bywyd. Nid cymorth dros dro mohono, ond newid sy'n cynnig trawsffurfio ei bywyd am y tymor hir.

Ystyriwch hefyd beth a olyga hyn i loan. Yn awr, roedd ganddo un arall i ofalu amdani. Golygodd newid tymor hir iddo yntau hefyd. Os ydym am ddileu tlodi trwy newid strwythurol rhaid gofyn pa newid a olyga hyn i ni? A allwn barhau i ymgyfoethogi tra bo gweddill y

byd yn llithro i fwy o dlodi? Allwn ni barhau a'n safonau byw uchel, sy'n parhau i ddringo? Neu a oes angen i ninnau wynebu newid?

Dylai anrhydeddu'r ddynoliaeth mewn eraill arwain at ganlyniadau - iddynt hwy ac i ninnau.

### **Yn drydydd, gall y canlyniadau ymarferol sy'n deillio o anrhydeddu arwain at fudd cilyddol.**

Eisoes rydym wedi sylwi fel y gall y canlyniadau ymarferol olygu newid sylweddol i'r un sy'n gorfod gweithredu'r newid strwythurol hwnnw. Roedd gan loan aelod newydd o'r teulu i ofalu amdani. Ond ni ddylwn o anghenraid weld hyn fel rhyw fath o gosb negyddol. Nid ffordd unffordd ydyw.

Pan ddywedodd Iesu wrth Mair, 'Dyma dy fab,' dywedodd hefyd wrth loan, 'Dyma dy fam.' Os yw Mair yn derbyn teulu i fod yn rhan ohono, mae loan hefyd yn derbyn perthynas agos. Mae ganddo fam unwaith yn rhagor. Er bod cost i'r newid hwn, mae yna fuddiannau mawr hefyd. Yn wir, pwy all fentro dweud pwy dderbyniodd y budd mwyaf y diwrnod hwnnw?!

Mae'r budd cilyddol hwn yn adlewyrchu gwirionedd beiblaidd pwysig: trwy ymestyn allan i gynnig cymorth i'r tlawd, rydym ni ar ein hennill. Yn yr ymestyn hwn cawn ein hatgoffa gan Iesu nad at y tlawd a'r gorthrymedig yn unig yr ymestynnwn, ond at Iesu ei hun. Yn y ddameg am y defaid a'r geifr (Mathew 25:31-46) gwnaeth Iesu hi'n glir iawn pwy a gyfarfyddwn wrth inni weld y llwglyd, y claf, neu'r carcharor - rydym yn cyfarfod ag ef. Mae yma fudd cilyddol yma. Mae'r naill a'r llall yn derbyn y budd. Yn wir, wrth ddod wyneb yn wyneb a Iesu, onid yw'r rhoddwr yn derbyn llawer mwy na'r hyn y mae'n ei roi?

Yn ein rhoi, yn ein cymorth, yn ein hymestyn allan at famau Ghana, rhaid inni fod yn ofalu na fyddwn yn nawddoglyd ein hagwedd, gan edrych i lawr ar arnynt. Byddai agwedd felly mor annerbyniol. Un ffordd o osgoi hyn yw trwy gofio faint a dderbyniwn ni yn y rhoi.

Trwy'r apêl hon, felly, mae gennym gyfle. Cyfle i wneud gwahaniaeth go iawn i filoedd o famau yng ngogledd Ghana. Ond wrth ymestyn atynt hwy, rydym hefyd yn ymestyn at Grist; yn dyfnhau ein bywyd ysbrydol ein hunain, wrth inni ddod a bwyd corfforol i eraill.

Amen.

### **Darlleniadau posibl:**

loan 19:25-27  
Mathew 25:31-46  
Salm 8.